**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17 Hydref 2011**

**YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU**

**Adroddiad gan Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Diogelwch Tân**

## Diben yr adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am weithgareddau ym maes Ymgysylltu â Chymunedau a wnaed dros haf 2011, a'u pwysigrwydd o ran rhoi cyhoeddusrwydd i ddiogelwch tân, cyfrannu at gydymffurfiad yr Awdurdod â Deddf Cydraddoldeb 2010, a siapio'r Gwasanaethau y byddwn yn eu darparu yn y dyfodol.

## Cefndir

2 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, a gwneir hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd trwy dimau neu unigolion cydnabyddedig gyda chefnogaeth yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol. Gwneir hyn nid yn unig er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i ymgynghori'n statudol dan Fesur Cymru ar gyfer Gwella 2009 a Deddf Cydraddoldeb 2010, ond yn bwysicach er mwyn deall sut i wneud ein gwasanaethau'n well ac i gwrdd ag anghenion gwahanol bobl. Mae'r Gwasanaeth yn manteisio ar gyfnod yr haf i fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau fel rhan o'i strategaeth atal. Dyma gyfle da i gyfathrebu gyda nifer fawr o bobl, yn drigolion ac yn ymwelwyr, gan gynorthwyo i wneud cymunedau Gogledd Cymru yn fwy diogel.

## Gwybodaeth

3 Yr Adran Diogelwch Cymunedol sy'n cydlynu presenoldeb y Gwasanaeth, gydag adnoddau megis y Cerbyd Amlbwrpas. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau uchel eu proffil megis yr Eisteddfod

Genedlaethol, a gynhaliwyd yn Wrecsam eleni, a Sioe Môn, ynghyd â nifer o ddigwyddiadau llai a gynhelir ledled y gogledd. Roedd y rhain yn cynnwys y diwrnod agored yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, diwrnod promenâd Bae Colwyn, diwrnod agored Heddlu Gogledd Cymru, yn ogystal â nifer o orsafoedd yn mynd i garnifalau a sioeau yn eu hardaloedd eu hunain.

4 Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr o Wasanaethau Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin, a'r De, i sicrhau bod ein pabell mewn digwyddiadau cenedlaethol megis yr Eisteddfod Genedlaethol yn darparu cyngor am ddiogelwch tân yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5 Dyma'r dadansoddiad o ymwelwyr a ddaeth i stondin y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn digwyddiadau mawr yn y gogledd:

| | |
|---|---|
| Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam | 4,078 |
| Eisteddfod Ryngwladol Llangollen | 2,230 |
| Sioe Môn | 1,707 |
| Sioe Dinbych a Fflint | 350 |
| Sioe Meirion | 480 |

6 Thema'r babell yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni oedd diogelwch tân dros yr haf. Dyfeisiwyd nifer o atyniadau i apelio at wahanol rannau o'r gymuned, megis cwis rhyngweithiol ar gyfer y plant.

7 Wrth fynd i'r digwyddiadau hyn, fe wnaethom ni fanteisio ar y cyfle i wahodd aelodau o'r cyhoedd i lenwi dogfen ymgynghorol Cynllun Lleihau Risg y Gwasanaeth, ac arweiniodd hynny at dros 50 o ymatebion.

8 Er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd, mae'r Subaru wedi bod yn brysur dros yr haf yn mynd i nifer o ddigwyddiadau ledled y gogledd gan dargedu'r grŵp oedran 16-25. Ar y cerbyd, a brynwyd gydag arian gan Lywodraeth Cymru, mae cyfleusterau DVD er mwyn gwella medrusrwydd gyrwyr ifanc ar y ffordd.

9 Yn ddiweddar, fe wnaethom ni ymgymryd â phrosiect codi ymwybyddiaeth wedi ei anelu at leihau'r risg o dân yng nghartrefi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth. Fel rhan o'r fenter hon, trefnwyd gweithdy ym Mangor yn ddiweddar, gyda chefnogaeth Atal Tân, er mwyn datblygu pecyn gwybodaeth wedi ei deilwra ar gyfer gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd. Daeth dros 40 o bobl i'r digwyddiad o wahanol sefydliadau o bob rhan o'r gogledd.

10 Mae prosiect arall wedi cael ei sefydlu er mwyn deall y materion ac adnabod atebion posib i nifer y digwyddiadau ac anafiadau o ganlyniad i danau mewn cartrefi yng nghymuned De Orllewin y Rhyl. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys ymgynghori â'r gymuned gan ddefnyddio arolwg ar y ffôn a holiaduron ychwanegol yn cael eu cynnal gan aelodau o'r gymuned eu hunain. Mae'r Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf wedi nodi bod y fenter hon ar y cyd wedi cyfrannu at well dealltwriaeth o'r risgiau tân, ac wedi caniatáu i'r Gwasanaeth deilwra cyngor i gwrdd ag anghenion penodol y gymuned.

11 Mae adran Addysg Busnes y Gwasanaeth wedi bod yn brysur dros gyfnod yr haf gyda digwyddiadau a oedd yn cynnwys diwrnod gwybodaeth ar gyfer gweithwyr ar Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy. Hefyd, yn dilyn llwyddiant digwyddiad tebyg yn gynharach yn y flwyddyn, buont yn cynnal seminar ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl i roi gwybod iddynt am eu hymrwymiadau dan y ddeddfwriaeth diogelwch tân. Cynhaliwyd digwyddiad gyda'r nos yn y Galeri yng Nghaernarfon ar gyfer darparwyr yn y sector gofal Blynyddoedd Cynnar.

## Argymhelliad

12 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys y papur sy'n rhoi tystiolaeth o ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned fel rhan o strategaeth y Gwasanaeth ar gyfer atal.